## CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2011**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd G. O. Jones - Cadeirydd<br>Y Cynghorydd R.Ll. Jones - Is-Gadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, B. Durkin, K. Evans, R. Anthony Dew, Ff. M. Hughes, R. Ll. Hughes, W. I. Hughes, W. T. Hughes, K. P. Hughes, Aled M. Jones, Eric Jones, H. Eifion Jones, O. Glyn Jones, Raymond Jones, T. H. Jones, C. McGregor, Bryan Owen, J. V. Owen, R. L. Owen, G. O. Parry MBE, Bob Parry OBE, Eric Roberts, J. Arwel Roberts, P. S. Rogers, H. W. Thomas, J. P. Williams. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro<br>Rheolwr, Cefnogaeth Ganolog a Chynllunio Argyfwng<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau<br>Swyddog Cyfathrebu. |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, Lewis Davies, Jim Evans, C. Ll. Everett, T. Ll. Hughes, R. Dylan Jones, Rhian Medi, G. W. Roberts OBE, E. Schofield, Ieuan Williams, S. Williams. |

---

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd O. Glyn Jones

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w datgan.

**2. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y BWRDD COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TÂL**

Estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad dwysaf i'r Cynghorydd Eric Roberts ar golli ei chwaer. Estynnodd ei gydymdeimlad llwyraf hefyd i deulu un o gyn drefnwyr y Gwasanaeth Ieuenctid ar yr Ynys, Mr R. Wyn Jones, a fu farw dros y penwythnos.

Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn teyrnged ddistaw fel arwydd o'u parch.

Ceisiodd y Cynghorydd H. Eifion Jones gael cyngor cyfreithiol a oedd mewn trefn a'i peidio i'r Aelodau siarad ar eitemau 3 a 4 ar y rhaglen heddiw?

Atebodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro ei bod mewn trefn i Aelodau siarad gan nad oedd yn ystyried bod hynny'n cyfateb i dorri Côd Ymddygiad yr Aelodau.

### 3. ADOLYGIAD O DREFNIADAU ETHOLIADOL CYNGOR SIR YNYS MÔN

Ystyriwyd – Ymateb y Cyngor i'r ddogfen ymgynghori ryddhawyd gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru yn adolygu trefniadau etholiadol Cyngor Sir Ynys Môn.

Roedd y Comisiwn yn cynnig y dylai'r Cyngor gael 30 Cynghorydd yn y dyfodol, sef 10 yn llai na'r hyn ydyw ar hyn o bryd. Roedd y trefniant arfaethedig yn darparu 11 adran etholiadol newydd – o'r 11 adran etholiadol hynny, byddai 8 ohonynt yn cael eu cynrychioli gan 3 Chynghorydd yr un a byddai'r 3 arall yn cael eu cynrychioli gan ddau Gynghorydd yr un. Roedd y Comisiwn yn awr yn gofyn i bobl a grwpiau ym Môn wneud sylwadau ar y cynigion drafft.

Oherwydd datblygiadau a symudiadau naturiol pobl, roedd rhai adrannau wedi dod yn llawer mwy na rhai eraill. Roedd hyn yn wir am sawl awdurdod lleol yng Nghymru a dyma oedd y rheswm paham bod y Comisiwn yn cynnal adolygiadau etholiadol yn y 22 Cyngor Sir, Cyngor Bwrdeistref a Dinesig ar draws Cymru.

Pwrpas yr adolygiad oedd ceisio sicrhau bod pob Cynghorydd yn cynrychioli tua'r un nifer o bobl fel bod pleidlais pob etholwr o'r un gwerth ar adeg yr etholiad. Nid dyma oedd yr achos ar hyn o bryd ym Môn lle'r oedd cyfartaledd sirol o un Cynghorydd ar gyfer 1,237 o etholwyr. Roedd adran Tref Caergybi, er enghraifft, gyda 640 o etholwyr i bob Cynghorydd, a hynny yn 48% yn llai o etholwyr fesul Cynghorydd na chyfartaledd y Sir a Llaneilian gyda 1,735 o etholwyr i bob Cynghorydd, sef 40% yn fwy. Nod yr adolygiad oedd cywiro'r sefyllfa honno trwy sicrhau bod pob Cynghorydd yn cynrychioli tua'r un nifer o bobl a bod pleidlais bob etholwr tua'r un gwerth.

Yn yr adolygiad, roedd y Comisiwn yn cael ei arwain gan Orchymyn y Gweinidog oedd yn gofyn iddo ystyried:-

- Pa mor ddymunol oedd adrannau etholiadol aml-aelod drwy'r Sir, a
- Cynnig cyfradd etholwr i Gynghorwr oedd mor agos â phosibl i 1:1750.

Roedd gan breswylwyr o 21 Tachwedd 2011 i 3 Ionawr 2012 i ddweud eu dweud ar y cynigion. Byddai'r Comisiwn wedyn yn cyhoeddi ei argymhelliad terfynol yn fuan yn y gwanwyn. Y bwriad oedd y byddai'r adrannau newydd yn dod i rym yn etholiadau nesaf y Cyngor Sir ar ôl 2012.

\- - -

Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y materion a ganlyn oedd yn haeddu eu hystyried fel rhan o'r trafodaethau heddiw:-

**<u>Rhan 1 – Cynigion y Comisiwn Ffiniau</u>**

**(A) Cwtogi nifer yr aelodau etholedig o 40 i 30.**
- Beth fydd goblygiadau lleihau 25% o nifer aelodau ar y Cyngor o ran rhedeg y busnes?
- Yn wyneb y bwriad i gael wardiau etholaethol lle bo'r gyfradd aelod/etholwyr yn 1:1750 sut mae cyfiawnhau cyfraddau llai?
- Pa ardaloedd/wardiau a ddylid eu heithrio o'r gyfradd 1:1750 ac am ba reswm?

**(B) Wardiau aml-aelod**
- Beth yw manteision ac anfanteision wardiau aml-aelod?
- A ddylid gwahaniaethu rhwng ardaloedd o ran wardiau aelod unigo/wardiau aml-aelod?
- A yw'r patrwm a gynigir o ran y cymunedau i'w cynnwys yn y wardiau newydd yn rhesymol a rhesymegol?
- A yw'r enwau a gynigir ar y wardiau at ei gilydd yn dderbyniol?
- Beth yw goblygiadau'r wardiau newydd i'r patrwm cynghorau tref a chymuned a'u perthynas hefo'r Cyngor Sir?
- A yw'r hyn a gynigir yn hyrwyddo neu lesteirio adnewyddiad democrataidd ym Môn?

**(C) Gohirio Etholiad y Cyngor Sir ym Mai 2012**
- A yw'n deg fod etholwyr Môn yn cael eu trin yn wahanol i weddill Cymru?
- Beth fydd goblygiadau'r gohirio i'r modd y mae busnes y Cyngor yn rhedeg?
- A yw gohirio'r etholiad o fantais i'r strategaeth i hyrwyddo adnewyddiad democrataidd ar yr Ynys?

**(CH) Amseru**
- A yw'r Comisiwn wedi rhoi digon o amser i'r Cyngor Sir a'i randdeiliaid i lunio'i ymateb cynhwysfawr?
- A ddylai etholiadau cynghorau tref a chymuned gael eu gohirio i gyd-redeg â'r Cyngor Sir?

**(D) Gweddill Cymru**
- Beth ydy goblygiadau'r newidiadau a fwriedir ym Môn i drefniadau gweddill Cymru?
- Beth ydy goblygiadau'r cynigion hyn i'r broses ddemocrataidd yn gyffredinol?

**(DD) Herio'r Cynigion**
- Beth yw'r rhagolygon gwleidyddol o herio'r cynigion, yn gyfan neu'n rhannol?
- Beth yw'r rhagolygon cyfreithiol o herio'r cynigion?

**(E) Ffurfio Ymateb**
- A ellir ffurfio ymateb unedig ar ran y Cyngor?
- Beth yw'r prif sylwadau a ddylid eu cynnwys mewn ymateb?
- A oes cwestiynau pellach sy'n gofyn am gael cyfarwyddyd gan y Comisiynwyr a/neu'r Gweinidog?

**<u>Rhan 2 – Cynigion o Ohirio Etholiadau 2012</u>**
- Beth yw'r goblygiadau o safbwynt cost a threfniadaeth?
- A yw gohirio yn hyrwyddo adnewyddiad democrataidd?
- Beth fydd yr effaith ar Gynghorau Tref a Chymuned?
- Beth ydy'r goblygiadau i lywodraeth leol yn gyffredinol?
- Beth ydy'r goblygiadau gohirio hyd at Medi 2012; Tachwedd 2012 neu Mai 2013?

Dywedodd y Cynghorydd Keith Evans bod y Cyngor wedi trafod cynigion ynglŷn â ffiniau sawl gwaith dros y 3-4 blynedd ddiwethaf. Bu'r achlysur mwyaf diweddar yn ystod yr haf pan roddodd y Comisiwn Ffiniau gynigion ymlaen gyda'r Cyngor hwn, yn anfoddog, yn cytuno ar gynigion cyfaddawdu i leihau'r aelodaeth o 40 i 36 aelod gyda threfniadau aml-aelod yng Nghaergybi a Phorthaethwy. Bu farw'r cynnig hwnnw pan chwalwyd y Comisiwn Ffiniau gan y Gweinidog oedd wedi cymryd y safbwynt nad oedd yn fodlon gyda'i waith ym Môn a thrwy Gymru. Wedyn fe ail-ffurfiwyd y Comisiwn Ffiniau ac yn awr roedd ei gynigion newydd gerbron y Cyngor.

Roedd Panel Comisiwn Ffiniau'r Cyngor, gydag yntau'n Gadeirydd arno, wedi penderfynu ar 5 Rhagfyr y dylid cael Seminar i'r holl Aelodau cyn cyfarfod heddiw. Fe gynhaliwyd y Seminar ddoe.

Dywedodd – fel aelod annibynnol o'r Awdurdod hwn oedd yn cael ei effeithio gan y cynigion, byddai'n rhoi cynnig gerbron y Cyngor yn nes ymlaen yn y drafodaeth.

Holodd y Cynghorydd A. Morris Jones am y cyfeiriad at yr Alban yng nghyflwyniad y Prif Weithredwr gan nad oedd yr un system bleidleisio yn bodoli yno. Yn ail, ei ddealltwriaeth ef oedd na ellid cynnal yr etholiad ond yn ystod mis Mai ac nad oedd unrhyw lwybr canol yn ôl y Ddeddf.

Roedd y Cynghorydd R. G. Parry OBE yn credu bod democratiaeth yn mynd allan drwy'r ffenestr o dan y cynigion hyn. Gyda'r toriad dros y Nadolig, nid oedd gan y Cyngor i bob pwrpas ond tair wythnos i ymateb erbyn 3 Ionawr 2012. Yn fwy na hynny, nid oedd yn rhoi digon o amser i Gynghorau Tref a Chymuned ymateb. Roedd ceisio galw cyfarfodydd ar yr amser hwn o'r flwyddyn yn rhywbeth anodd i'r Cynghorau hyn ei wneud.

Byddai lleihau nifer o Gynghorwyr i 30 yn rhoi pwysau mawr iawn ar aelodau. Nid oedd 30 o aelodau yn ddigon i reoli Cyngor ac fe allai hyn greu problemau ynddo'i hun. Nid oedd y Comisiwn chwaith wedi edrych ar y wardiau a'u niferoedd yn ddigon gofalus. Roedd y Comisiwn Ffiniau wedi crybwyll yn ei adroddiad – *'effective and convenient local government' 'electoral equality' 'community ties and*

*boundaries' 'rural and urban consideration' 'consideration regarding single or multi-member electoral wards'.* Roedd hefyd wedi dweud ei fod yn bwriadu cyfarfod gyda'r Prif Weithredwr ac Arweinyddion y Grwpiau. Nid oedd hyn wedi digwydd.

Mewn rhai Wardiau, o dan y cynigion newydd byddai'r nifer isaf yn 1:1355 ac ar begwn arall y raddfa byddai'r ffigwr yn nes i 1:2000. Ni fyddai yna unrhyw newid ac fe fyddai rhai wardiau'n llawer mwy a rhai eraill yn llawer llai. Roedd am gwestiynu'r geiriau 'adnewyddiad democrataidd' ddefnyddiwyd gan y Gweinidog a'r Archwiliwr Dosbarth.

Yn ei farn ef, ac ym marn sawl un y tu allan i'r Cyngor, nid oedd y cynigion hyn yn mynd i helpu i gael pobl ifanc i sefyll i'w hethol i'r Cyngor. Gyda 30 aelod byddai'n dod yn swydd lawn amser bron. Nid oedd yn credu y byddai pobl ifanc neu ganol oed ar yr Ynys yn barod i roi eu swyddi dydd i fyny am swydd fel Cynghorydd ac efallai golli eu sedd ymhen 4 blynedd. Mi fyddai mamau gyda phlant bychan yn barod i weithio o 9-5. Ni fyddai'r cynigion ond yn annog pobl wedi ymddeol i sefyll i'w hethol.

Roedd angen mwy o amser i werthuso'r cynigion. Roedd y gwasanaeth etholiadol angen rhyw 6 mis i ffurfio rhestr etholiadol newydd, felly ni fyddai dim yn rhwystro i'r Gweinidog symud y diwrnod cau efallai i ganol Mai neu Fehefin 2012. Dywedodd ei fod wedi cynrychioli'r Cyngor hwn a'r Grŵp Cydlynu'r CLLLC lle'r oedd pob un o Arweinwyr y Partïon ar draws Cymru yn unfrydol na ddylai Ynys Môn fod yn wahanol i weddill Cymru. Roedd hynny yn neges y dylid ei ailddweud wrth y Gweinidog.

Dweud wnaeth y Cynghorydd G. O. Parry MBE mai democratiaeth oedd y mater pwysig y dylai'r Cyngor fod yn mynd i'r afael ag ef. Roedd newid yn y ffiniau a wardiau aml-aelod yn mynd i greu problemau i'r etholaeth ac i bwy bynnag oedd yn eu cynrychioli ar ddiwedd y dydd. Mae'n fwy na thebyg y bydd nifer fawr yn sefyll i'w hethol, ond a fyddai digon o frwdfrydedd i ddod allan a phleidleisio? Roedd pethau wedi bod yn anodd yn y gorffennol i'r cyfeiriad hwn.

Efallai y dylai Wardiau bychan gael eu huno gyda Wardiau eraill er mwyn sicrhau'r ffigyrau priodol. Byddai gan nifer o'r Wardiau arfaethedig Gynghorau Cymuned o fewn eu ffiniau. Pe bai'r aelodaeth yn cael ei gostwng i 30 o aelodau, byddai'n anodd i aelodau fynychu'r holl gyfarfodydd hynny. Roedd yn ystyried y byddai 36 o aelodau'n opsiwn gwell ar gyfer Ynys Môn.

Roedd yn gobeithio nad oedd y cyfeiriad wnaed gan y Prif Weithredwr yn ei gyflwyniad at 3 dyddiad posibl ar gyfer yr etholiad yn wir ac mai'r dewis fyddai naill ai Mai 2012 neu Mai 2013. Roedd yna berygl o gael 'gormod o bwdin etholiadol' a thrwy hynny droi'r cyhoedd oddi wrth bleidleisio. Nid oedd unrhyw fwriad chwaith i adolygu trefniadau Awdurdodau eraill gyda hynny'n dangos bod Ynys Môn yn achos unigryw. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi dweud nad oeddent yn gefnogol i wneud Ynys Môn yn achos arbennig.

Dywedodd y Cynghorydd H. W. Thomas ei fod wedi anfon llythyr i'r Gweinidog yn ei wahodd i fod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw. Os oedd rhywbeth oedd ymhellach oddi wrth ddemocratiaeth, yna hwn ydoedd. Roedd hyn wedi cael ei wneud ar frys gan wybod yn iawn fod yna wyliau dros y Nadolig pryd y byddai'n anodd i'r Cyngor ac i Gynghorau Tref/Cymuned gyfarfod. Paham oedd y Gweinidog wedi gwyro oddi wrth yr arfer cyffredin? Pam nad oedd wedi gofyn i'r cyhoedd cyn cyhoeddi ei adroddiad? Fe wnaeth y Comisiwn Ffiniau gynnal adolygiad y flwyddyn ddiwethaf ac oherwydd nad oedd y Gweinidog wedi'i fodloni gyda'u casgliadau, fe'i saciodd.

Roedd yn amlwg bod Cadeirydd y Comisiwn Ffiniau newydd o blaid wardiau aml-aelod – dyna oedd ei gefndir yn Lloegr. Roedd Comisiynwyr wedi'u hanfon i mewn i lywodraethu yn Ynys Môn oherwydd bod y gweinidog eisiau i Ynys Môn gael ei rhedeg yn unol â'r awdurdodau eraill yng Nghymru. Ac eto, roedd yn gwneud eithriad ohonom? Roedd y Cynghorydd Thomas yn bryderus na fyddai'r adolygiad yn cael ei ddefnyddio gyda'r awdurdodau eraill yng Nghymru.

Nid oedd ganddo unrhyw broblem gyda gostwng niferoedd y Cynghorwyr ond fe ddylai'r Gweinidog fod wedi edrych ar wardiau un aelod yn gyntaf. Fe allai'r etholwyr wedyn gysylltu gyda'u Cynghorydd boed hwy'n eu hoffi ai peidio. Dyna oedd democratiaeth. Efallai y byddai 3 Cynghorydd wedi'u lleoli yn yr un gongl mewn ward aml-aelod a neb yn y rhannau eraill. Pan fyddai problem, a fyddai'r Cynghorwyr hynny yn gynefin â chefndir y broblem honno?

Oherwydd bod hwn yn fater mor ddifrifol, roedd yn ystyried y dylai'r Cyngor a'r etholwyr wneud safiad. Pe bai'r aelodaeth yn mynd i lawr i 30, yna y cam nesaf mae'n debyg fyddai uno gyda Gwynedd.

Roedd y Cynghorydd J. Arwel Roberts yn cytuno gyda'r pwyntiau a godwyd gan y Cynghorydd Thomas. Gweinidogion y Cynulliad fyddai'r rhai cyntaf i weiddi pe bai yna unrhyw gynigion i ddiwygio eu ffiniau hwy. Dim ond 10 diwrnod yn ôl y cafodd y Panel Ffiniau ei sefydlu, ac roedd seminar wedi'i chynnal ddoe i'r aelodau ac roedd disgwyl i'r Cyngor wneud penderfyniad heddiw er mwyn cyrraedd yr amser ymateb ar 3 Ionawr. Roedd hyn oll yn cael ei ruthro trwodd. Trwy gytuno â llwybr gweithredu o'r fath, fe fyddai'r Comisiynwyr yn parhau i lywodraethu'r Ynys ymhen blwyddyn a hynny ar gost fawr i'r trethdalwyr.

Roedd y mater yn cael ei ruthro trwodd meddai'r Cynghorydd K. P. Hughes ac roedd proses ddyledus yn cael ei hanwybyddu. Cwestiynodd paham yr oedd Ynys Môn yn cael ei thrin yn wahanol i weddill Cymru ac a oedd hynny'n deg i bobl Môn? Pa fath o berson oedd y Gweinidog - a oedd yn un oedd yn credu mewn democratiaeth neu a oedd yn unben, dim ond amser fyddai'n dangos?

Y teimlad ymysg yr etholwyr ym Môn oedd eu bod eisiau etholiad ym Mai 2012 ar gyfer 40 o Gynghorwyr. Nid oeddent eisiau wardiau aml-aelod ond yn hytrach un aelod i un ward. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd wedi datgan eu dymuniad i gael etholiad ym Môn yn 2012. Roedd yn gobeithio y byddai'r Gweinidog yn rhoi sylw i'r safbwyntiau hynny. Trwy wrando ar yr hyn oedd yn cael ei ddweud, ni fyddai'r Gweinidog yn tanseilio'r gwaith da oedd yn cael ei wneud gan y Comisiynwyr yn y broses adfer.

Roedd y Cynghorydd J. V. Owen yn ystyried ei bod yn bwysig herio'r hyn oedd yn cael ei gynnig yn hytrach nag amseriad yr etholiad. Byddai'r ffiniau oedd yn cael eu cynnig yn ei gwneud yn anodd i aelodau annibynnol sefyll yn erbyn peiriant y parti. Roedd y weithdrefn ar gyfer casglu safbwyntiau'r etholwyr wedi'i thorri'n fyr. Os oedd y Gweinidog o ddifrif ynglŷn ag adferiad democrataidd, yna fe ddylai gynnal refferendwm fel y gallai pobl Ynys Môn benderfynu beth oedd orau iddynt ar ddiwedd y dydd. Pe baem yn derbyn yr hyn oedd yn cael ei gynnig yna fe fyddai hynny yn ddiwedd ar ddemocratiaeth ar Ynys Môn.

Dywedodd y Cynghorydd Bryan Owen nad oedd y Cyngor yn gwrthwynebu adolygu'r ffiniau ond roedd yn cwestiynu pam y byddai gan awdurdodau eraill trwy Gymru 4 blynedd i adolygu eu ffiniau a dim ond 4 wythnos i Ynys Môn? Roedd yn ystyried nad oedd y broses ddyledus wedi ei dilyn yn yr ystyr nad oeddynt wedi rhoi digon o amser i'r Cyngor hwn nac i'r Cynghorau Tref a Chymuned a'r cyhoedd. Roedd pobl Ynys Môn yn haeddu'r un hawliau â gweddill pobl Cymru.

Daeth yr Archwilydd Cyffredinol yma dros flwyddyn yn ôl pan oedd y Cyngor mewn trafferthion. Pe bai'n dod yma heddiw ac yn siarad gyda'r Comisiynwyr byddai'n gweld y newid sydd wedi digwydd dros y 6 mis diwethaf. Roedd yn anhapus nad oedd y Gweinidog yn bwriadu cynnal etholiad ym Mai 2012 ac roedd yn teimlo y dylid anfon llythyr ato yn mynegi pryderon y Cyngor hwn ac y dylai hefyd ystyried penderfyniad unfrydol a wnaed gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru na ddylid trin Ynys Môn yn wahanol i weddill Cymru.

Yn ei farn ef, byddai bron yn amhosib rhedeg Cyngor gyda dim ond 30 o aelodau. Roedd y Gweinidog wedi bod yn sôn am adnewyddiad democrataidd, ond roedd 14 o aelodau newydd eisoes wedi eu hethol i'r Awdurdod yn 2008 a chafwyd dau isetholiad wedyn hefyd. Roedd hynny bron yn cyfateb i hanner y Cyngor. Onid oedd hynny'n adnewyddiad democrataidd beth oedd?

Roedd y Cynghorydd A Morris Jones yn credu bod yr Archwilydd Cyffredinol yma i edrych ar effeithlonrwydd mewn llywodraeth leol ac nid i wneud argymhellion gwleidyddol. Roedd wardiau aml-aelod yn argymhelliad gwleidyddol. Roedd hi'n gamsyniad i'r Gweinidog guddio y tu ôl i hynny. Roedd saith o'r wardiau cyfredol yn y Cyngor Sir yn cwrdd â'r targed o 1:1750 a byddent yn gwneud hynny erbyn 2016. Roedd deddfwriaeth y Llywodraeth yn caniatáu ar gyfer uchafswm o 75 o aelodau ac, er mawr syndod, lleiafrif o 30 o aelodau!

Nid oedd neb yn erbyn gostwng nifer y Cynghorwyr, ond yn ei farn ef, dylid gostwng y ffigwr i rhwng 34 - 36 o aelodau a dylai'r egwyddor o adnewyddiad democrataidd gael ei gweithredu ar yr un adeg â gweddill Cymru. Byddai'n parhau i fod yn bosib cynnal etholiad ym Mai 2012 a gofynnodd i'r Swyddog Canlyniadau barhau i gynllunio ar gyfer sefyllfa o'r fath.

Bu sôn hefyd am gyfuno wardiau gwledig a threfol. Roedd dadl gref yn erbyn y cynnig hwn. Ni fyddech yn gweld ardaloedd trefol yn cael eu cyfuno gydag ardaloedd gwledig unman arall yng Nghymru. Cyn y cynigion hyn, roedd y Comisiwn Etholiadol wedi ymweld â'r swyddfeydd hyn ond wedi gwrthod cwrdd ag unrhyw aelodau etholedig.

Roedd y Gweinidog wedi diswyddo ei Gomisiwn Ffiniau ym mis Mehefin ac ni chafwyd arwydd tan yn ddiweddar na fyddai'r etholiadau yn cael eu cynnal. O ganlyniad, byddai'r Comisiynwyr sy'n rhedeg yr Awdurdod hwn ar hyn o bryd yma am 12 mis arall heb fod yna reolaeth ddemocrataidd. Yn ystod y cyfnod hwn, byddai'n rhaid cymryd penderfyniadau anodd, ond a fyddai'r rheini'n benderfyniadau a wnaed gan aelodau etholedig ynteu gan y Comisiynwyr?

Roedd y cynigion hefyd yn ymosodiad ar Gynghorwyr Annibynnol. Roedd y traddodiad Annibynnol yn un anrhydeddus ac nid oedd gan neb hawl i rwystro rhywun rhag sefyll fel aelod Annibynnol. Roedd y Gweinidog yn cwrdd â'i Gomisiynwyr heddiw. Pam nad oedd wedi dod i'r cyfarfod hwn o'r Cyngor i esbonio ei fwriadau?

Ar ran y Cyngor, roedd yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd wedi gofyn am gefnogaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roedd y Ceidwadwyr Cymreig a'r Rhyddfrydwyr Cymreig yn barod i sefyll i fyny yn y Cynulliad a herio gyda phleidlais. Roedd nifer o Gynghorau Plwyf o blaid cynnal yr etholiadau flwyddyn nesaf. Pwy oedd y Gweinidog i ddweud nad oedd etholiad Plwyf mor bwysig, a hefyd, beth yw pris democratiaeth? Roedd pobl wedi brwydro a marw dros yr hawl i bleidleisio ac ni ddylai bod gan unrhyw wleidydd hawl i ymyrryd gyda'r broses honno.

Roedd y Cynghorydd B Durkin yn bryderus iawn am yr hyn a oedd yn digwydd. Roedd y neges gan yr etholwyr yn glir ac yn groch ac roeddent yn anfodlon iawn gyda'r ffordd yr oedd yr Ynys yn cael ei thrin. Canfyddiad y cyhoedd oedd nad oedd y Gweinidog yn hoffi pwy oedd trigolion Môn wedi bod yn pleidleisio iddynt yn y gorffennol, a'i ateb ef felly ar gyfer adnewyddiad democrataidd oedd, yn syml, rigio'r system ethol yn Ynys Môn i'w gwneud hi'n anodd i bobl nad oedd ef yn eu hoffi, sef aelodau Annibynnol, i gael eu hethol. Roedd y Gweinidog yn anghofio bod yna rai Cynghorwyr Annibynnol ardderchog a chydwybodol ar un ochr a rhai Cynghorwyr gwael iawn a oedd yn perthyn i bleidiau ar yr ochr arall. Yn anffodus, byddai'r system newydd yn gweld y rhai cyntaf yn cael eu cosbi a'r lleill yn ffynnu. A oedd hyn yn bris gwerth ei dalu er mwyn sicrhau adnewyddiad democrataidd ffug trwy ddull amheus o fynd ati'n fwriadol i ddylanwadu ar system etholiadol yr Ynys.

Dyna oedd canfyddiad pobl. Roedd hon yn sefyllfa gywilyddus i gael i mewn iddi. Awgrymodd y Cynghorydd Durkin y dylai'r Cyngor lynu wrth y 'status quo' a pharhau i frwydro. Dywedodd fod y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro wedi egluro "*y dylai Comisiynwyr gael eu penodi tan yr etholiad yn 2012 ynghyd â buddsoddiad ac adnewyddiad democrataidd*. I fod yn deg i'r dyn hwnnw, roeddent yn mynd dros ei ben ef hyd yn oed.

Roedd y Cynghorydd Tom Jones yn cefnogi cynnig yr Arweinydd y dylid cynnal etholiad ym mis Mai 2012. Rhaid i unrhyw ymateb i'r Gweinidog hefyd harneisio sylwadau'r Cynghorau Tref a Chymuned i gefnogi'r farn honno. Roedd angen i'r Cyngor fod â meddwl agored gan ddweud, ar ôl etholiadau 2012, y byddai'n fodlon ystyried gostyngiad yn y niferoedd a bod yn barod efallai i drafod wardiau aml-aelod a diogelu wardiau unigol. Ni chafwyd ymgynghoriad digonol ac ni chafwyd tystiolaeth gan y Comisiwn Ffiniau i gefnogi eu cynigion. Roedd yn gobeithio bod yr Arweinydd yn fodlon derbyn ei awgrymiadau.

Dywedodd y Cynghorydd Keith Evans fod y Cyngor yn cyfarfod heddiw yn ward fawreddog newydd Canol Môn – ward y byddai ganddi 5,829 o etholwyr yn ôl y map. Yn seiliedig ar ei gyfrifiadau bras ef, sef bod 2 o bobl yn byw ym mhob annedd, roedd hynny mae'n debyg yn golygu 3,000 o anheddau newydd yn y ward newydd honno. Yn ei farn ef, byddai'n amhosib i aelod ymweld â 3,000 o dai ym mis yr etholiad. Os oedd aelod yn ystyried mai'r unig ffordd yr oedd ganddo ef/hi o gyfathrebu gyda'r etholwyr hynny oedd trwy bostio taflenni, byddai hynny'n costio 30 ceiniog x 3,000 sy'n £900 mewn costau postio ynghyd â £900 ychwanegol o bosib o ran costau argraffu. Roedd hynny'n golygu cost oddeutu £2k ar gyfer aelod Annibynnol heb unrhyw sicrwydd o lwyddiant. Ar hyn o bryd, roedd gan yr Ynys 40 o gymunedau. A fyddai system newydd gydag 11 ward yn arwain at nifer debyg o wardiau Cynghorydd Tref/Cymuned yn y dyfodol agos?

Yna cyflwynodd y Cynghorydd Evans ei 7 cynnig i'r Cyngor fel ymateb i'r ddogfen ymgynghori.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn fodlon gyda'r hyn yr oedd y Cynghorydd Evans yn ei gynnig a'i fod yn barod i dynnu'r cynnig yr oedd ef wedi ei wneud yn ôl. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor egluro'n glir nad yw yn erbyn unrhyw newidiadau, bod angen etholiad yn Ynys Môn ym Mai 2012 a bod angen digon o amser wedyn i drafod y cynigion hyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Glyn Jones at y datganiadau isod a wnaed yn y Daily Post heddiw lle 'roedd Arweinydd y Blaid Geidwadol yn y Cynulliad wedi dweud *"You do not bring about democratic renewal by postponing elections. Likewise, manipulating the Island's boundaries and electoral system purely to achieve your own preferred outcome will also not lead to a sustainable recovery."* Roedd Arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi dweud yr un modd *"that we do not believe that delaying the elections by a year would not be an appropriate response for ensuring a thriving local democracy in Ynys Môn."* Roedd Ieuan Wyn Jones hefyd wedi dweud ei fod mewn trafodaethau gyda'i aelodau. Roedd yn dda gweld bod o leiaf un aelod o'r Grŵp Llafur ar y Cyngor hwn yn fodlon mynd yn erbyn ei blaid ei hun ar y mater hwn.

Dywedodd y Cynghorydd J Penri Williams mai'r hyn y roedd y Gweinidog yn ei ddweud oedd ei fod yn dymuno cael gwared ohonom ond er mwyn gwneud hynny roedd yn rhoi blwyddyn arall i ni! Roedd pobl ei ward wedi ei ethol ef fel eu cynrychiolydd a dim ond y nhw a oedd yn gallu ei ethol ef allan yn y pendraw. Mewn ward o 1500 o bobl roedd aelodau o leiaf yn gallu dod i adnabod eu pobl. Mewn ward o 5,000 nid oedd unrhyw obaith o fedru gwneud hynny. Nid oedd yn ystyried y byddai wardiau aml-aelod yn dod â mwy o bobl allan i bleidleisio.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y chweched cynnig gan y Cynghorydd Evans sef *'that officers sought advice and take whatever reasonable measures that may be necessary to challenge the Boundary Commission proposals and the Minister's involvement.'* Yn ei farn ef nid oedd hynny'n golygu proses gyfreithiol gymhleth. Yn hytrach nid oedd yn ddim mwy na'r Awdurdod hwn yn gofyn am farn ynghylch pwerau'r Comisiwn Ffiniau a'r Gweinidog yn hyn o beth.

Roedd y Cynghorydd R Ll Hughes yn cefnogi'r cynigion a wnaed gan y Cynghorydd Evans. Yn ei farn ef, byddai'n ddoeth gofyn am farn Cwnsler ynghylch a oedd cynnwys yr adroddiad yn gyfreithlon a rhesymol. Roedd yn teimlo bod y cynigion yn ymosodiad ar bobl Môn a'u hawl i ymarfer eu hawliau democrataidd i bleidleisio.

Dywedodd y Cynghorydd Eric Jones fod yr adroddiad yn sarhad ar ddemocratiaeth a'i fod yn ddiwrnod trist pan oedd y gair 'lleol' yn mynd allan o Lywodraeth Leol. Gofynnodd i'r aelodau ymateb yn unigol i'r adroddiad.

Roedd y Cynghorydd P S Rogers yn ystyried bod gwelliannau wedi eu gwneud ers i'r Comisiynwyr fod yn gyfrifol am redeg yr Awdurdod hwn. Nid oedd yn ystyried bod y 'status quo' yn opsiwn ac roedd yn credu fod rhaid gostwng nifer yr aelodau. Fodd bynnag nid oedd yn ystyried bod y cyfnod ymgynghori wedi bod yn ddigonol.

Roedd y Cynghorydd B Owen yn ystyried y byddai o fudd cael barn Cwnsler ac y dylid cysylltu gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyda golwg ar geisio cael cyfraniad ariannol tuag at gostau'r farn honno.

Cynigiodd y Cynghorydd A Morris Jones y newidiadau isod i'r cynigion a wnaed gan y Cynghorydd Evans:-

- Argymhelliad 2 - rhoi'r geiriau' rural ac urban' cyn y gair 'communities' ym mhumed llinell y paragraff;

- Argymhelliad 4 – ychwanegu at ddiwedd y paragraff *'that the Returning Officer of the Isle of Anglesey County Council continue to plan for democratic elections in May 2012.'*

- Argymhelliad 7 - o gofio'r undod gwleidyddol yn y Siambr heddiw, awgrymodd y dylai'r Cyngor ganfasio'r holl bleidiau gwleidyddol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru a gofyn iddynt sicrhau bod pleidlais yn digwydd ar lefel Cynulliad.

Derbyniodd y Cyngor y 3 newid a gynigwyd gan y Cynghorydd A Morris Jones yn unfrydol:-

**A PHENDERFYNWYD**

- **Bod y Cyngor yn gwrthod ac yn gwrthwynebu cynigion diweddaraf y Comisiwn Ffiniau i gyflwyno 11 o wardiau aml-aelod i ethol 30 o Aelodau ar gyfer Ynys Môn / Isle of Anglesey mewn etholiad ym Mai 2013.**

- **Bod y Cyngor yn credu'n gryf y byddai'r cynigion, nad ydynt wedi bod ar gael ar gyfer ymgynghori priodol, yn arwain at wardiau sy'n rhy fawr, a fyddai'n annemocrataidd yn yr ystyr y byddai'n cyfyngu'r amrediad o ymgeiswyr, byddai diffyg atebolrwydd lleol, byddai'n anghydnaws oherwydd gorfodi cymunedau trefol a gwledig gwahanol i gyfuno, ac ni fyddai'n darparu digon o aelodau ar gyfer rhedeg y Cyngor Sir yn effeithlon.**

- **Cadarnhau y byddai'n llawer iawn gwell cael wardiau un aelod.**

- **Annog y Gweinidog i ganiatáu i'r broses ddemocrataidd arferol fynd yn ei blaen trwy awdurdodi cynnal etholiad ym Mai 2012, gyda'r holl Gynghorau Sir eraill yng Nghymru, ar sail 40 o wardiau etholiadol yn dychwelyd 40 o aelodau. Bod Swyddog Canlyniadau Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau i gynllunio ar gyfer cynnal yr etholiadau yn Ynys Môn ym Mai 2012.**

- **Bod y Cyngor yn ymrwymo i ymgysylltu'n benderfynol wedyn gyda'r Comisiwn Ffiniau i weithio tuag at wardiau cyfartal, sef un aelod i 1,400 o etholwyr a gostyngiad rhesymol yn nifer yr Aelodau.**

- **Rhoi cyfarwyddiadau i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro ofyn am gyngor a chymryd unrhyw gamau rhesymol y gall bod eu hangen i herio priodoldeb cynigion y Comisiwn Ffiniau ar ôl y Gweinidog.**

- **Bod y Cyngor yn ymgysylltu gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ennyn cefnogaeth ar gyfer ei safbwynt a chysylltu hefyd gyda Chynghorau Sir, Cynghorau Cymuned, yr etholwyr ac eraill yr un modd. Bod yr holl bleidiau gwleidyddol yn y Cynulliad yn gofyn am bleidlais i alluogi a chefnogi cynnal etholiadau democrataidd yn Ynys Môn ym Mai 2012.**

**4. CYNNIG I NEWID BLWYDDYN ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL YN SIR YNYS MÔN**

Adroddwyd - Bod y Gweinidog ar gyfer Llywodraeth Leol a Chymunedau, mewn llythyr dyddiedig 22 Tachwedd 2011, wedi dweud ei fod yn bwriadu newid blwyddyn etholiadau llywodraeth leol yn Sir Ynys Môn o fis Mai 2012 i Mai 2013.

Roedd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru wedi cyhoeddi ei adroddiad drafft ar adolygiad o drefniadau etholiadol ar gyfer Ynys Môn ac roedd yn bwriadu cyhoeddi ei adroddiad terfynol erbyn 30 Mawrth 2012. Oherwydd, ni fyddai'n bosib ystyried adroddiad terfynol y Comisiwn ac, os yn briodol, gweithredu unrhyw newidiadau cyn etholiadau Mai 2012.

Gallai etholiadau i gynghorau tref a chymuned yn y Sir ddigwydd ym Mai 2012 er gwaethaf unrhyw ohiriad o ran ethol Cynghorwyr Sir. Fodd bynnag, roedd y Gweinidog yn ymwybodol o'r awydd i gynnal etholiadau Cynghorau Cymuned a Chyngor Sir ar yr un pryd fel sy'n digwydd fel arfer.

Roedd y Gweinidog felly yn gofyn am sylwadau ar y cynnig i newid blwyddyn yr etholiadau ar gyfer y Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref a Chymuned yn Sir Ynys Môn a'u cynnal flwyddyn yn ddiweddarach fel bod yr etholiadau yn digwydd ym Mai 2013. I'r perwyl hwn, roedd yn gofyn am ymateb erbyn 6 Ionawr 2011.

**PENDERFYNWYD annog y Gweinidog i ganiatáu i'r broses ddemocrataidd arferol fynd yn ei blaen trwy awdurdodi cynnal yr etholiad ym Mai 2012 fel sy'n digwydd gydag etholiadau**

**Cynghorau Sir  eraill yng Nghymru ac ar yr un adeg ag etholiadau i'r Cynghorau Tref a Chymuned.**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.05pm

**Y CYNGHORYDD G O JONES**
**CADEIRYDD**